


Croeso i'r Llyfr Du

BELLACH MAE GENNYM FESUR IAITH sydd yn golygu fod gan y Gymraeg statws swyddogol. Er gwaethaf hynny mae'r iaith Gymraeg yn parhau i gael ei diystyru a'i rhoi o'r neilltu. Rydym ni'n parhau i dderbyn cwynion o bob cwr o Gymru am ddiffyg gwasanaethau Cymraeg o fewn busnesau a sefydliadau, nifer ohonynt yn cyfeirio at sefydliadau a ddylai fod eisoes yn cynnig gwasanaeth Cymraeg.

Eleni mae'r Gymdeithas yn dathlu hanner canmlwyddiant. Llynedd, wrth edrych tuag at ein hanner canmlwyddiant fe wnaethom draddodi darlith *Tynged yr Iaith* 2 oedd yn clodfori ymdrechion yr hanner can mlynedd a fu, gan iddo sicrhau dyfodol i'r iaith Gymraeg, tra'n nodi hefyd bod angen ymdrechu ymhellach i sicrhau lle y Gymraeg fel cyfrwng naturiol ar lawr gwlad.

Dywed y ddarlith fod hyn yn mynd ymhellach na gallu gweld y Gymraeg ar ambell ffurflen neu fod rhai arwyddion yn cael eu codi mewn siop er mwyn dangos cydnabyddiaeth arwynebol tuag at y Gymraeg, neu fod gwasanaeth Gymraeg ar gael o ofyn amdano. Dylai'r Gymraeg fod yn holl bresennol a chanolog i bob rhan o fywyd ein gwlad, nid yn rhywbeth ymylol. Mae'r enghreifftiau yn y llyfr hwn yn dystiolaeth glir nad yw cwmnïau a sefydliadau yn ystyried y Gymraeg mewn gwirionedd ac nad yw agweddau tuag at y Gymraeg wedi newid digon.

Mae gofyn am wasanaeth Cymraeg a thynnu sylw at ddiffyg gwasanaeth Cymraeg yn gam mawr a hawdd iawn yw hi i gwmni neu sefydliad anwybyddu cwynion gan unigolion. Yn fwy na hynny mae'n gallu bod yn rhwystredig i ofyn droeon am wasanaethau sylfaenol yn y Gymraeg heb weld unrhyw newid yn agwedd y cwmni neu'r sefydliad. Un o brif ddibenion y Llyfr Du felly yw rhoi llwyfan i bobl wneud eu profiadau yn gyhoeddus a thynnu sylw at arferion gwael. Bwriadwn gyhoeddi dogfen debyg yn flynyddol gan obeithio gweld llai o gwynion bob tro.



Gyda phenodiad Comisiynydd cyntaf yr iaith Gymraeg eleni rydym am gyflwyno'r llyfr iddi. Un o brif amcanion y Comisiynydd y Gymraeg yw i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Gobeithiwn y bydd hi'n gwneud hyn drwy sicrhau fod pobl yn gallu gweld, clywed a defnyddio'r Gymraeg yn naturiol o ddydd i ddydd. Gobeithiwn hefyd y bydd y Llyfr Du yn cynnig man cychwyn iddi wrth wireddu dyheadau pobl i allu byw eu bywyd drwy'r Gymraeg, gan ei fod yn nodi'n glir nifer helaeth o brofiadau gwael sydd yn gynrychiolaeth bach iawn o'r diffyg sydd yn bodoli ar hyn o bryd.

Yng nghefn y Llyfr Du mae ffurflen i nodi cwynion. Byddwn yn eich hannog i'w llenwi a'i dychwelyd atom wrth i gwynion godi ac i gwyno wrth y cwmni neu'r sefydliad er mwyn tynnu eu sylw at y sefyllfa.


Os am fwy o wybodaeth am yr ymgyrch cysylltwch â **deddf-iaith@cymdeithas.org**

Ymlaen!

Ceri Phillips,

Cadeirydd Grŵp Hawliau,

Cymdeithas yr Iaith Gymraeg



TEITL	LLEOLIAD	DYDDIAD	AD
Ymateb i ymchwiliad o dan Deddf Rhyddid...	Abertawe SA1 3SN	May 23 2012	2012
Ymateb i ymchwiliad o dan Deddf Rhyddid...	Cyngor Caerdydd	May 14 2012	2012
Meddygfa Padarn, Aberystwyth	rhiw penglais, aberystwyth	May 3 2012	2012
Celtic Community Leisure	Canolfan Hamdden Castell Nedd, SA11 3AN	Apr 30 2012	2012
SGYMRAEG TESCO	Tesco, Porthmadog	Apr 30 2012	2012
Parc Antur Gelli Gyffwrdd	Gelli Gyffwrdd, Felinheli, LL56 4QN	Apr 26 2012	2012
Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy	8 Riviere's Avenue, Bae Colwyn	Apr 25 2012	2012
Prifysgol Glyndwr	Prifysgol Glyndwr, Wrecsam	Apr 24 2012	2012
Diffyg Cymraeg yn 2 Crosshands	Aldi Cross Hands, Heol Llandello, Llanelli, SA14 6RD	Apr 19 2012	2012
		Apr 13 2012	2012

Y Dystiolaeth

1. Y Sector Preifat

- a. Banciau
- b. Telegyfathrebu
 - Cwmnïau Ffôn Symudol
 - BT
- c. Cyfleustodau
- ch. Cwmnïau Trafnidiaeth
- d. Archfarchnadoedd/Siopau

2. Y Sector Cyhoeddus

- a. Y Gwasanaeth Iechyd
- b. Cyrff y Goron
- c. Awdurdodau Lleol
- ch. Addysg
- d. Sefydliadau a Chanolfannau Cyhoeddus

3. Y Cyfryngau

4. Y Sector Gwirfoddol

Ni enwyd neb yn yr enghreifftiau canlynol am resymau diogelwch data

Y Sector Preifat

Banciau / Gwasanaethau Ariannol

“Nid yw **Smile, Banc y Co-Operative**, yn defnyddio'r Gymraeg o gwbl.”

“Hoffwn gael gwasanaeth yn Gymraeg gan y **banciau**. Mae yna linell ffôn yn Gymraeg ond yn y canghennau mae popeth yn Saesneg - taflenni, ffurflenni, staff ddim yn siarad Cymraeg ac mae'r wefan yn uniaith Saesneg.”

“**Lloyds TSB** yn gwrthod ateb gohebiaeth Cymraeg trwy gyfrwng y Gymraeg neu ddim yn ateb o gwbl.”

“**Banc Natwest, Penybont ar Ogwr**: Nid yw'r peiriant arian newydd yn cynnig gwasanaeth ddwyieithog er bod yr hen beiriant yno yn cynnig hynny.”

“Flwyddyn ddiwethaf, galwais i ym Mlaenau Ffestiniog ar fy ffordd i ymweld â rhywun. Wrth ddefnyddio'r peiriant arian parod **HSBC** yn y dref, ces i fy siomi'n arw gan nad oedd yn cynnig gwasanaeth yn y Gymraeg. Efo Barclays dwi'n bancio ac, yn fy mhrofiad i, y maent yn reit dda am ddarparu gwasanaeth dwyieithog. Roeddwn yn disgwyl gwasanaeth tebyg gan HSBC, yn enwedig wrth feddwl fy mod i'n defnyddio'u peiriant nhw mewn un o ardaloedd Cymreicaf Cymru.”

“Fe agorais gyfri banc gyda **Lloyds** yn Stryd Fawr Bangor. Ticiais y bocs 'Cymraeg' ar gyfer '*preferred language*' ar gyfer gohebiaeth. Cefais lythyr gan Lloyd's ynglyn â'r trefniadau gor-ddrafft rai dyddiau yn ddiweddarach ac yn y cytundeb roedd y frawddeg '*you agree that we communicate with you in English*'.”

“Mae diffyg gohebiaeth Cymraeg gan Fanc **Nat West**”


“**Banc HSBC** – Mae ffurflenni i agor cyfrif banc ar gael yn Saesneg yn unig.”

“Er bod yr **HSBC** yn cynnig linell ffon Cymraeg, rydym o hyd yn gorfod cael ein arallgyfeirio i adran arall i drafod unrhywbeth penodol trwy gyfrwng y Saesneg.”

“**Halifax Caerdydd** – Er bod opsiwn ‘Dewis iaith gohebiaeth’ yn cynnwys y Gymraeg nid oedd aelod o staff yn ymwybodol ohono nac yn ei gynnig.”

“Mae llinell Gymraeg **National Savings and Investments** yn mynd drwodd i Trosol, ble mae gan y staff jest rhestr o leiniau wedi eu sgriptio a dim potensial o gwbl i roi cyngor ariannol etc i neb.”

“Twll-yn-y-wal **HSBC Caerfyrddin** - Er bod rhyngwyneb Gymraeg i beiriant twll yn y wal HSBC Caerfyrddin i'r sawl sy'n gwsmer ac yn defnyddio cerdyn HSBC, wrth ddefnyddio cerdyn gan fanc arall nid oes dewis ar gyfer gwasanaeth Cymraeg.”



“Doedd un o'r peiriannau pres yn **HSBC Wrecsam** dim yn gweithio'n iawn, doedd o ddim yn cynnig dewis Cymraeg. Es i fewn i ddweud wrth y person ar dyletswydd, a phan es i nol rhyw wythnos wedyn, doedd o dal ddim yn gweithio. Es i mewn eto i ddweud, a dywedodd y ddynes ar ddyletswydd nad oedd dim byd yn bod ar y peiriant, a byddai rhaid i fi ddefnyddio un o'r lleill os oeddwn i eisiau dewis gwasanaeth Cymraeg.”

“Arferwn brynu Bondiau Cynilo i Blant yn **Swyddfa'r Post** ond ers tro byd ni welais yr un ffurflen Gymraeg. I gael un Gymraeg, rhaid argraffu un eich hun o'r wefan.”

“Ym Manc **Barclays, Abertawe**, does byth taflenni-talu-mewn yn Gymraeg ar y cownter ac ar ôl gofyn, fel arfer, nid ydynt gallu dod o hyd i un. Un tro dwedodd merch wrthyf y gallai pob grŵp ethnig ofyn am ffurflen yn eu ieithoedd eu hunain a bydde hynny'n gofyn gormod felly doedd hi ddim am wneud eithriad o'r Gymraeg!”

“Derbyn llythyr uniaith Saesneg gan **Principality** a gorfod ei ddychwelyd, yr un peth yn wir am HSBC.”

“Dwi wedi bod yn pwyso ar **HSBC** ers dros 2 flynedd am gael bancio ar y we yn Gymraeg - ond heb gael ateb boddhaol o gwbl eto.”

“Dim un o'r banciau yn cynnig gwasanaeth **bancio ar-lein** yn y Gymraeg.”

“Banc **Natwest, Penybont ar Ogwr** - Nid yw'r peiriant arian newydd yn cynnig gwasanaeth ddwyieithog er bod yr hen beiriant yno yn cynnig hynny.”

“Diffyg gwasanaeth Gymraeg yn **HSBC** a siopau eraill yn Aberystwyth.”

“Mae yno arwydd newydd yn **HSBC** Stryd y Frenhines sydd yn aml-ieithog ond nid oes Cymraeg yno.”

“**HSBC Aberystwyth** - Dim digon o arianwyr sydd yn gallu siarad Cymraeg wrth y cownter. Dim un o'r pobl 'croesawu' yn siarad Cymraeg yn aml iawn.”



“**Natwest** yn gwrthod ateb gohebiaeth Cymraeg trwy unrhyw gyfrwng.”



“X wedi ysgrifennu llythyr o gwyn at grwp y **Co-operative** (Manceinion) am fod diffyg peiriant arian dwyieithog yn ei archfarchnad ym Mhentrebach, Merthyr Tudful.”



“Cymdeithas adeiladu'r **Halifax** - bron yn amhosibl cael gwasanaeth yn Gymraeg hyd yn oed yn y gangen leol (Aberystwyth) ac wrth gwrs mae pob galwad ffôn yn mynd i rhyw ganolfan yn Lloegr. Dwi ddim wedi gallu cael defnydd ysgrifenedig yn Gymraeg. Dydy **Barclays** ddim yn dda iawn chwaith - does dim sôn ar y wefan am sut i gael gwasanaeth Gymraeg er bod un yn bodoli, ond nid yw'r gwasanaeth Cymraeg ar gael am gymaint o oriau y dydd â'r un Saesneg. Hefyd gan bod y swyddfa dreth yn Abertawe ddim yn delio hefo pethau yn Gymraeg dwi wedi cael sefyllfa lle mae diffyg cyfathrebu rhyngddyn nhw â Phorthmadog (lle mae'r gwasanaeth Cymraeg ar gael) wedi golygu nad oedd gwybodaeth yn cael ei basio o un swyddfa i'r llall - pam na all pob canolfan yng Nghymru weithredu yn ddwyieithog?”



“Tan rhyw bedair blynedd yn ôl roeddwn yn bancio gyda **Abbey National**. Ysgrifennais i'w pencadlys i ofyn iddynt ystyried defnyddio/arddangos rhywfaint o Gymraeg yn eu busnesau ar draws Cymru. Gwrthodon yn llwyr ...”



“Dwi'n gweithio i gwmni bach sy'n gwneud pob dim yn y Gymraeg, felly mae'r holl waith papur yn Gymraeg, gan gynnwys Cynllun Dirpwyath Ariannol ar bwy sy'n cael arwyddo sieciau ayb. Rydyn ni'n bancio gyda'r **HSBC** yn hanesyddol, oherwydd bod ganddyn bolisi dwyieithrwydd. Wnaethon ni gyflwyno mandad newydd iddynt, gyda'r cynllun ar gyfer y llyfr sieciau. Oherwydd nad oedd yr unig siaradwr Cymraeg yn y gangen tan yr wythnos nesaf, wnaethon nhw rhoi'r gwaith papur i un ochr, gan achosi problemau mawr i ni wrth drïo talu staff a darparwyr. Rydyn ni wedi gorfod cyflwyno gwaith papur yn ddwyieithog ers hynny.”



“**Alliance & Leicester** - dim gwasanaeth Cymraeg. Pob gohebiaeth yn uniaith Saesneg. Dim peiriannau arian ar gael yn Gymraeg. Abbey - dim darpariaeth Gymraeg. Mae eu peiriannau arian twll yn y wal yn perthyn i rwydwaith 'Link', ac nid yw'r rhain yn darparu gwasanaeth Cymraeg ar y cyfan.”

“**HSBC** - darperir cyfriflenni ayb trwy'r Gymraeg. Mae hefyd modd defnyddio peiriannau arian trwy'r Gymraeg. Hyd y gwn i dim ond un aelod o staff cangen Heol y Frenhines, Caerdydd sy'n siarad Cymraeg. Darperir gwasanaeth Cymraeg dros y ffôn, fodd bynnag mae'n rhif ar wahan, ac nid yw'n cael ei hyrwyddo mor eang â'r rhif Saesneg cyffredinol (ee mewn llyfrau ffôn, ar eu gwefan ayb). Ar y cyfan maen nhw gyda'r gorau o blith y gwasanaethau prin sydd ar gael yn Gymraeg o fewn y sector ariannol.”

“Principality - gwasanaeth ar-lein ar gyfer e-gynilon yn Gymraeg. Er i mi brofi rhai trafferthion wrth i'r rhyngwyneb gael ei gyfieithu (nid oedd modd i mi fewngofnodi ar y rhyngwyneb Gymraeg, dim ond trwy'r rhyngwyneb Saesneg), ymddengys bod y gwasanaeth bellach yn gweithio. Darperir negeseuon e-bost yn Gymraeg. Ni cheir gwasanaeth Cymraeg mewn canghennau, fodd bynnag, a gwasanaeth wedi'i gyfieithu sydd ar gael ar gyfer gohebiaeth.”

“Banc **Barclays** - Er bod gwasanaeth busnes yn y Gymraeg i fod, does dim siap arno - maen nhw fel petai nhw yn methu ymdopi gyda phobl sydd wirioneddol am wasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg, ac yn drysu'n llwyr o'r herwydd.”

“Mae rhan fwyaf o fanciau Cymru yn cynnig gwasanaeth dwyieithog yn eu peiriannau twll yn y wal ond nid y **Royal Bank of Scotland** yn archfarchnadoedd **Tesco**. Bellach oherwydd bod y banciau wedi derbyn cymaint o'n harian ni y trethdalwyr, oni ddylent gynnig gwasanaeth dwyieithog?”

“Hoffwn ddefnyddio Cymraeg yn unig gyda fy manc ond dyw'r opsiwn ddim yna - dw i di mynd at **HSBC** oherwydd ei “agwedd bositif” at y Gymraeg ond yn ddiweddar maen nhw wedi gwrthod derbyn ffurflenni eu hunain yn fy nghanen leol am fy mod i wedi'u cwblhau yn Gymraeg!”

“Rwyf wedi gofyn yn ofer i fanc y **Cooperative** ac i Gymdeithas Adeiladu **Nationwide** i gynnig gwasanaethau dwyieithog. Mae hi'n mynd yn gynyddol anodd i gael gwasanaeth wyneb-yn-wyneb trwy'r Gymraeg yng nghanen Aberystwyth o'r HSBC (ond mae cangen Bangor yn dda, a'r ganolfan alwadau Cymraeg yn ardderchog).”



“Roeddwn am agor cyfrif ‘Ymddiriedolaeth Gwynfor’ yn un o’r Banciau.

Lloyds TSB - Dim ffurflenni Cymraeg i agor cyfrif Busnes neu Gymdeithasau.

Nat West - Neb yn medru ymateb pan y gelwais i mewn yng Nghaerfyrddin. Ond, ymhen diwrnodau fe ffeindiwyd rhywrai yn Aberystwyth.

Barclays - Dim ar gael.

HSBC - Holi am rai Cymraeg. Dywedwyd nad oedd ar gael. Gwelais Gymraes arall ac fe ffeindiwyd rhai i mi. Mae hyn yn dangos pa mor anodd y mae hi i gael deunydd Cymraeg hyd yn oed os y’n nhw ar gael.”

“Rydw i’n defnyddio gwasanaethau cwmni **Halifax** yn aml iawn, ac er bod rhai pethau yn y gangen leol ym Mangor yn Gymraeg, does dim llinell ffôn Gymraeg a dim Cymraeg ar ei gwefan. Mae hyn yn gwneud i fi deimlo nad ydynt yn poeni rhyw lawer am eu cwsmeriaid yng Nghymru.”



“Banc **Co-Operative** - Cynnig opsiwn Cymraeg yn y twll yn y wal. Wedi ei bwysu, mae’n arwain yn syth yn ôl at y Saesneg. Dim gwasanaeth Cymraeg”



“**Nat West** - Dim gwasanaeth Cymraeg. Rhai arwyddion. Staff yn gwrthod cymeradwyo sic oedd yn defnyddio sillafiad Cymraeg arno. Llyfr sic ar gael, ond ddim ond i bobl llaw dde!

Telegyfathrebu

Astudiaeth Achos: Cwmni Ffôn - 02 Lewys Arôn, Cwm Aman

"Ychydig o wythnosau yn ôl, fe es i siop O2 yng Nghaerfyrddin er mwyn trial dod o hyd i a thrwsio problem dechnegol ar fy ffôn. Wrth gyrraedd y siop fe wnes i fwcio apwyntiad gyda'r "criw technegol" er mwyn trwsio fy ffôn, popeth yn iawn felly. Ar ôl cwblhau siopa fe wnes i ddychwelyd yn ôl i'r siop mewn amser am fy apwyntiad, a dyma'r fenyw yma'n cerdded tuag at i er mwyn fy nghyfarch. "Hi, can i help you?" wedodd hi, dyma fi'n ymateb "Na, popeth yn iawn, dwi'n aros am fy.....". **Dyma hi'n tarfu ar fy nhraws i gan gweud mewn llais uchel a chryf "ENGLISH!"**. Does dim syndod bod llawer o siaradwyr Cymraeg yn derbyn gwasanaeth Saesneg os dyma sut ni'n cael ein trin wrth ofyn am wasanaeth yn y Gymraeg. Tybed sut bydd henoed neu blentyn ifanc wedi ymateb i'r fath yma o driniaeth? Felly ar ôl gadael y siop fe gwynais yn swyddogol i O2, a dyma fi'n cael yr un fath o ateb oddi wrth y swyddfa cwynion. Dyma rhai dyfyniadau o'r llythyron fe wnes i dderbyn yn ôl.

"I don't speak Welsh so I used Google translate to translate your answer, Hope I got it right"

"We are a UK based company and therefore operate through the medium of English"

"Due to the Data protection act I cannot

reveal what steps we are taking to ensure this doesn't happen again".

"Roeddwn i'n falch iawn pan glywais fod rhai cwmnïau preifaf yn mynd i gael eu cynnwys yn y mesur iaith 2011. Nawr 'na i gyd sydd ar ôl i'w wneud yw i'r Comisiynydd sicrhau bod yna safonau llym yn cael eu rhoi mewn lle er mwyn atal y fath yma o ddigwyddiad. Felly galwaf i ar i'r Comisiynydd osod safonau er mwyn atal y fath yma o ddigwyddiad."



Cwynion:

- “**02 Mobile** - dim gwasanaeth o gwbl yn y Gymraeg (ar lein, taflenni, gwasanaeth llafar, hybysebion tymor hir/byr, biliau)”
- “Rwyf yn gweld dewis ieithoedd eraill ond nid y Gymraeg gan gwmnïau ffonau symudol fel **Vodafone**.”
- “Yn y **Carphone Warehouse** does dim gwasanaeth o gwbl yn Gymraeg.”
- “Does dim gwasanaeth cwsmeriaid Cymraeg ar gael o gwbl gan **Sky** a does dim rhyngwyneb Cymraeg ar gyfer meddalwedd defnyddwyr.”
- “**Orange** - Ag eithrio arwyddion dwyieithog ar eu hen siop yng Nghaerdydd (sydd bellach wedi hen gau), nid wyf wedi cael unrhyw wasanaeth Cymraeg wrth Orange. Gellid darparu gwasanaethau ar-lein yn Gymraeg yn ddigon rhad.”
- “Mae **Virgin Media** (NTL gynt) - wedi **bloccio** mynediad i'r unig gwasanaeth cyfeirlyfr BT Cymraeg, sef 118 404 (achos eu bod nhw wedi bloccio pob gwasanaeth BT).”
- “Ffonau symudol **02** (a phob un arall am wn i) - dim gwasanaeth Cymraeg i gael.”
- “Tydw i ddim yn hapus gyda'r gwasanaeth Cymraeg dwi'n ei dderbyn gan gwmnïau preifat yn Nghymru. Dwi hefyd yn cael fy ngwasanaethau telethrebu gan gwmni **Virgin** a tydw i ddim yn ymwybodol o unrhyw wasanaeth sydd i'w gael drwy gyfrwng y Gymraeg gan gynnwys drwy sgrin y teledu, dros y ffôn neu drwy lythyr.”

Beth allaf i wneud?

Oes unrhyw gwmni ffôn yn cynnig gwasanaeth Cymraeg? Rhowch wybod i ni **post@cymdeithas.org**

BT

“BT - **Trosglwyddir** cwsmeriaid o ganolfannau lle mae siaradwyr Cymraeg i ganolfannau lle nad oes siaradwyr Cymraeg.”

“BT - Modd ffonio'n Gymraeg am ymholiadau syml yn ymwneud a'r bil ayb, ond unwaith mae angen trafod materion technegol (ee newid cyflenwyr - naill ai wrth BT neu atynt, neu adrodd broblemau am y llinell ffôn ayb) **dim ond yn Saesneg** gellir gwneud hynny. Does dim manylion penodol 'da fi, ond o brofiad gwasanaeth Cymraeg cyfyngedig iawn ges i.”

“BT - Mae'n **anodd dod o hyd i rif** ffôn llinell Gymraeg BT, bu rhaid ffonio'r llinell Saesneg er mwyn cael y rhif. Wrth brynu band llydan mae cynigion arbennig ar gael ond dim ond drwy brynu drwy'r wefan neu drwy'r llinell ffôn gyffredinol lle nad oes gwasanaeth Cymraeg mae modd defnyddio'r cynigion arbennig. Er mwyn cael bil ar-lein, sydd yn rhatach na chael bil papur, rhaid derbyn bil yn Saesneg - nid oes modd ei gael yn Gymraeg. Daw pob gohebiaeth gyffredinol dros e-bost ac yn post yn Saesneg. Ces i ymateb diystyriol wrth gwyno.”

“Pan yn trio setio fyny broadband yn y tŷ, ces i fy annog gan ffrind sy'n neud PR i BT i ddefnyddio nhw gan fod ganddyn nhw wasanaeth dwyieithog. Felly es i chwilio ar y wefan am y rhif Cymraeg, ond o'i ffonio canfod na fedren nhw wneud dim ond fy mhasio i mlaen i'r bobl oedd yn delio efo broadband - yn Saesneg. **Ffars ydi polisi Cymraeg o'r fath.**”

“Does **dim hawl** cael gwybodaeth / biliau yn Gymraeg ar-lein gan BT. Y dewis ydi dal i'w cael ar bapur a thalu £18 y flwyddyn yn fwy. Felly cosb ariannol am wasanaeth Cymraeg!”

“Gan fy mod eisiau derbyn gwasanaeth Cymraeg does dim dewis gyda fi ond i gymeryd cytundeb ffôn gyda BT - mae hyn yn golygu fy mod yn **colli arian bob mis**. Mae nifer o gwmnïau eraill wedi cynnig cytundebau lot gwell na BT i mi ond nid ydynt yn cynnig gwasanaeth Cymraeg.”

“BT- Llinell ffôn Cymraeg i drafod manion am y cyfrif. **Nid oes modd** trafod materion mwy cymhleth trwy'r Gymraeg, er enghraifft symud cyfrif o un darparwr i'r llall ayb.”



“... un peth sy'n gwylltio fi'n arbennig ydi **Ann Beynon yn brolio gwasanaethau Cymraeg** BT drwy'r amser - pan mae'r gwasanaeth Cymraeg yn anhygoel o brin AC MAE'N COSTIO'N YCHWANEGOL! BT yn annog pawb i gael biliau arlein (sy'n beth da) - ond os dwishe bil Cymraeg bydde rhaid i fi swithio i gael bil papur - sy'n £1.23 ychwanegol y mis. Enghraifft arall - mae'r teclyn ateb 1571 am ddim, ond os dwi eisie'r neges cyfarch yn Gymraeg, bydde rhaid i fi dalu £1.47 y mis am y fraint. Felly jysd i gael y gwasanaeth hollol sylfaenol gan BT yn Gymraeg, mae disgwyl i fi dalu £32.40 y flwyddyn yn fwy na rhywun sy ddim yn siarad Cymraeg. Ac wedyn mae Ann Beynon yn cwyno bod dim digon o bobl yn defnyddio'r gwasanaethau Cymraeg! Wrth gwrs dy'n nhw ddim - mae pawb call yn mynd i fynd am yr opsiwn rhatach, sef Saesneg yn unig.”



“Rwy'n ffonio cwmni ffôn BT a rhaid gofyn am wasanaeth Cymraeg, rhaid i minnau aros, weithiau hyd at **hanner awr** (rwy wedi gwneud) tan y byddaf yn cael gwasanaeth Cymraeg, weithiau does dim i gael.”

BT



Beth allaf i wneud?

Ysgrifennwch lythyr at **Ann Beynon**, pennaeth y cwmni, i ofyn iddi a ydi hi'n meddwl fod gwasanaeth Gymraeg BT yn ddigonol: **Ty Cynnal, Ffordd Watkiss, Meysydd Elai, Caerdydd, CF11 0SW**

Cyfleustodau

Astudiaeth Achos: Scottish & Southern Electricity Chris Griffiths, Maesteg

Cyrhaedda biliau cwsmer **Scottish and Southern Electricity** Chris Griffiths yn hwyr, neu ddim o gwbl, oherwydd ei fod wedi gofyn amdanynt yn Gymraeg. O ganlyniad, derbynna filiau yn ei rybuddio am dalu'n hwyr, ond maent yn Saesneg yn unig. Fe ysgrifennodd at y cwmni yn cwyno am y sefyllfa, ond heb lwyddiant. Dywedodd Chris wrthym "Gyda'r polisi yma pwy fydd yn dewis gofyn am fil Cymraeg?"

Beth allaf i wneud?

Os yw cwmnïau yn methu darparu biliau Cymraeg mae'n ddigon rhesymol dweud wrth gwmnïau **na fyddwch yn gallu eu talu nes bod bil Cymraeg** yn cyrraedd.

Cwynion



"Nid oes gwasanaeth Cymraeg o gwbl gan **N Power** Trydan. Maent yn gwrthod anfon anfonebau dwyieithog."



"**Swalec** - Neges wedi'i recordio ar ddechrau'r gwasanaeth ffôn. Darpariaeth wael i gwsmeriaid. Cyfathrebiad i gyd yn Saesneg."



"Roedd rhaid imi aros ar y ffôn am 15 munud gyda **Swalec** cyn cael rhywun oedd yn dysgu Cymraeg. Wnaeth y dyn ymdrech mawr ond roedd e'n amlwg cael trafferth mawr i gyfathrebu yn iawn. Y ffaith oedd fod y gwasanaeth wedi costio llawer mwy i fi oherwydd dewisais i ddefnyddio Cymraeg. Fel rheol dyw Swalec ddim yn cyfathrebu trwy'r Gymraeg o gwbl."



"**Dwi'n talu llawer gormod** am nwy a thrydan dim ond am fy mod i am dderbyn y gwasanaeth yn y Gymraeg, nid oes yr un opsiynau gyda fi sydd gyda phobl sy ddim yn mynnu'r un gwasanaeth. Sut mae hynny'n deg?"

“Dydy **Swalec** ddim yn darparu gwasanaethau Cymraeg cyflawn - rhaid aros am alwad ffôn nôl.”

“Prin iawn yw'r gwasanaethau a gynigir yn Gymraeg. Mae'r rhan fwyaf o bethau bellach ar y we ac mae hynny wedi rhoi cyfle i **BT, British Gas** ac i'r banciau anghofio am y Gymraeg. Ceir rhyw dudalen o Gymraeg sy'n gwbl ddi-werth ac i gael unrhyw wybodaeth bellach rhaid defnyddio gwefan Saesneg.”

“Fel un sydd wedi symud tŷ gymaint o weithiau yn ddiweddar ydi o ran y cwmnïau cyfleustodau sydd i fod efo polisi dwyieithog fel **Dŵr Cymru a Swalec**. Wrth symud mewn i dŷ bydd y llythyr cyntaf sy'n dod yn uniaith Saesneg a does dim manylion am linell ffôn Gymraeg ac ati arnyn nhw o gwbl. Byddai rhaid i rywun sydd am wasanaeth dwyieithog felly ffonio'r llinell Saesneg a gofyn am un, os oes un ar gael. Byddai trin y ddwy iaith yn gyfartal yn golygu fod gwasanaeth Cymraeg yr un mor hawdd ei dderbyn a gwasanaeth Saesneg, o'r cychwyn cyntaf.”

“Wrth ffonio **Scottish Power** yn ddiweddar, cael fy nghyfarch ymhen amser gan ŵr Saesneg yr iaith ag acen Albanaidd. Gan fy mod eisiau adrodd hanes polynion trydan wedi eu malurio ar y mynydd ger Ffestiniog, a minnau'n angen siaradwr Cymraeg iddo allu deall enwau lleoedd Cymraeg i gyfeirio gweithwyr atynt, yn gorfod aros am hydoedd, ar fy nghost fy hun, nes i Gymro ddod i'r fei. Dylai'r gwasanaeth gyfeirio at siaradwr Cymraeg yn syth bin, nid gorfod aros amdano. Gwasaneth eilradd ydi hyn.”

“Yn gyffredinol nid ydwyf yn hapus gyda'r gwasanaeth sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghymru. **Dylai unrhyw gwmni** sy'n cynnig gwasanaethau fel ffôn, trydan a nwy ayyb ddarparu gwasanaeth dwyieithog gyda chanolfannau galwadau yng Nghymru.”

“Rwyf yn cael fy nghyflenwad trydan gan gwmni o'r enw **Good Energy** sydd yn danfon biliau uniaith Saesneg i mi.”



Cwmniau trafnidiaeth

Astudiaeth Achos - Trenau Arriva Cymru

Mae nifer o aelodau'r Gymdeithas wedi cwyno am wahanol agweddau o wasanaeth Trenau **Arriva Cymru** yn ddiweddar gan gynnwys y diffyg cyhoeddiadau dwyieithog. Fe dderbyniwd ymatebion **gwbl anfodddhaol** gan y cwmni. Dyma rai ohonynt:

"Nid yw'r fath sgriniau mewn gorsafoedd a reolir gan Arriva yn ddwyieithog am nifer o resymau. Yn fwyaf penodol, maint cyfyngedig o destun y gellir ei roi i mewn i'r sgriniau hyn, ac mae hyn yn safonol ar draws holl rwydwaith y rheilffyrdd. Hefyd, fel cwmni preifat, nid yw'n ofynnol o dan y gyfraith i ni gynhyrchu ein holl ddeunyddiau printiedig ac arwyddion yn ddwyieithog, er ein bod yn ceisio sicrhau bod cymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl ar gael yn Gymraeg."

"...mae gennym wahanol systemau cyhoeddiadau yn ôl y math o gerbydau rydyn ni'n eu defnyddio

... nid ydynt yn gallu cyhoeddi yn Gymraeg na chael eu diweddarau. Yn 2020, ... bydd yna gyfle i ystyried gosod systemau newydd y pryd hwnnw.

... Er hynny, hoffwn nodi nad yw'n rhwymedigaeth arnom yn y cytundeb masnachfrait sydd gennym gyda Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd i dalu'r costau sy'n gysylltiedig â'r fath welliannau, ac felly byddai angen buddsoddiad gan drydydd parti.

... Gobeithio y gallwch ddeall y byddai angen i Lywodraeth Cymru a'r Adran Drafnidiaeth, sy'n rheoli ein contract, ystyried yn ofalus y cyfiawnhad dros fuddsoddiad mawr yn y cyfnod sydd ganddynt ar ôl.

.... O ran y staff yn cynnal sgwrs yn Gymraeg, nid oes gennym fel cwmni bolisi sy'n ei gwneud yn ofynnol i'n staff rheng flaen siarad Cymraeg a hefyd nid oes gofyniad ar y cam recriwtio i ddarparwr weithwyr allu cynnal sgwrs yn Gymraeg."

Cwynion eraill

“**Trenau Arriva Cymru** - Mae cyhoeddiadau uniaith Saesneg ar lein drenau y Cambrian. Nid yw'r bwrdd gwybodaeth electronig yn ddwyieithog ym Mhontypridd.”

“Dwi'n teithio i'r gwaith ym Mae Caerdydd ar y trên bob bore ac yn defnyddio peiriant tocynnau yng ngorsaf Heol y Frenhines yng Nghaerdydd bob dydd. Mae opsiwn am wasanaeth Cymraeg ar y peiriant ac wrth wthio'r botwm Cymraeg mae ambell gwestiwn Cymraeg yn codi – ond nid yw'n bosib chwilio am orsaf yn yr enw Cymraeg e.e tydi'r peiriant ddim yn deall Caerdydd, mae'n rhaid rhoi *Cardiff*. Ar ben hyn mae holl enwau'r tocynnau e.e. *return, cheap away day* ayb i **gyd yn Saesneg**. Teimlaf nad ydi hyn yn unrhyw fath o wasanaeth dwyieithog – a bod y ffaith bod y botwm ar y peiriant yn cynnig gwasanaeth yn Gymraeg yn gwbwl gamarweinol.”

“**Ges i lot o sbort heddiw** yn trio defnyddio gwefan Trenau Arriva i fwcio tocyn tren trwy gyfrwng y Gymraeg o Gaerdydd i Lanelli ac yn ôl. Gwasanaeth eilradd iawn oedd i'w gael ac mi wnes i ffonio i gwyno. Roedd rhaid i mi siarad gyda rhywun yn India!”

“...Bysiau **Stagecoach** yng Nghaerffili mae popeth yn Saesneg. A trenau Arriva, mae yna gyhoeddiadau ynglyn ag amserau'r trenau yn ddwyieithog ond pan rydych yn prynu tocyn a dangos y tocyn ar y tren dyw'r person ddim yn siarad Cymraeg.”

“Nid wyf yn hapus gyda gwasanaethau cwmnïau preifat, Er enghraifft: dim cyhoeddiadau Cymraeg ar drenau **Virgin**, dim cyhoeddiadau Cymraeg ar drenau Arriva.”



“**Arriva Trains Wales:** ... Prin yw'r staff sy'n siarad Cymraeg. Yn y gorsafoedd lle yr uwchraddiwyd y sgriniau gwybodaeth, collwyd y fersiwn Gymraeg.”

“Mae cwmni bysiau **Arriva** ar y cyfan yn dda am roi arwyddion dwyieithog ar eu bysiau, ond mae nifer o'r staff yn anfoesgar iawn gyda siaradwyr Cymraeg. Rydw i wedi cael sawl un yn fy ateb yn haerllug iawn ar ôl i fi ofyn am “Singl i Fethesda plis” - nad yw, ga' i bwysleisio, yn frawddeg anodd ei deall, hyd yn oed i rywun di-Gymraeg.”

“Prinder arwyddion Cymraeg ym **Maes Awyr Caerdydd.**”

“Y diffyg arwyddion dwyieithog sy'n fy nghythraddo ym **Maes Awyr Caerdydd.** Mae ambell un dwyieithog yma ac acw, ond mae nifer yr arwyddion uniaith Saesneg yn destun siom ac yn dangos diffyg parch.”

“Mae **trên bach yr Wyddfa** hefyd yn enghraifft arall o ddiffyg Cymraeg yn fy ardal i. Rwy wedi bod arno gyda ffrindiau, ac yn gweld hi'n warthus fod gwasanaeth sydd wedi ei leoli ar yr Wyddfa, o bobman, yn un uniaith Saesneg.”

“**Central Trains** - Datganiadau dwyieithog ar y platform ond dim dogfennaeth na staff sicr eu Cymraeg.”

“Dim gwasanaeth Gymraeg hyd yn oed ar ‘Travel Line Cymru’, sy'n hysbysebu yn Gymraeg. Arriva - dim gwasanaeth Cymraeg nac arwyddion. Dim ond amserlenni. **Cardiff Bus Company** - hysbysebion ‘Cardiff Bus Co’ (tôn: ‘we know our city and the people who live there’ etc. *Exclusive* iawn!) ar hyd y bysiau yn uniaith Saesneg.”

Archfarchnadoedd/ Siopau

Astudiaeth Achos: Marks & Spencer

Cododd y mater ynglyn â Marks & Spencers gyntaf pan godwyd pryderon ar ôl i'r busnes ail-leoli o ganol tref Llanelli i barc Trostre. Roedd yna ymgyrch fawr pan sefydlwyd y busnes yng nghanol tref Llanelli flynyddoedd yn ôl i gael arwyddion dwyieithog, ac fe lwyddodd wedi i aelodau o'r Gymdeithas adael trolïau llawn o nwyddau wrth y manau talu a cherdded mas gan wrthod prynu nwyddau o M&S oherwydd diffyg gwasanaeth yn y Gymraeg. Ar ôl llythyru â M&S daeth yn amlwg nad oedd y busnes yn ddigon parod i gynnal gwasanaeth Cymraeg, felly ym mis Rhagfyr 2010 penderfynom ni fel Cell Cymdeithas yr Iaith yn yr ardal i gynnal yr un brotest a ddigwyddodd flynyddoedd yn ôl, gan adael trolïau llawn nwyddau wrth y manau talu yn y gobaith y byddai hyn yn deffro'r cwmni. Wedi hyn aeth aelodau o grŵp hawliau'r Gymdeithas i gwrdd â rheolwr M&S dros ranbarth Cymru ac addawodd ef sefydlu arwyddion dwyieithog pan fyddai siopau'n cael eu hadnewyddu yn y dyfodol agos. Mae blwyddyn arall wedi gwibio heibio nawr ers i ni gyfarfod â M&S y tro diwethaf a does dal dim newid wedi bod yn y gwasanaeth na chwaith eu hagwedd nhw tuag at y Gymraeg.

Beth allaf i wneud?

Oes enghraifft tebyg yn dy ardal di? Os felly, anfona'r enghraifft at **post@cymdeithas.org** neu llenwa'r cerdyn ar y cefn a'i ddychwelyd atom

Morrisons Bangor:
Y Gymdeithas yn sefyll (ac yn eistedd) dros hawliau.



Cwynion

“Hoffwn i weld mwy o ddefnydd ar y **bathodynnau 'coma' oren** roedd Bwrdd yr Iaith yn eu cynhyrchu (dwn i ddim ydyn nhw'n dal i'w gwneud) i ddynodi siaradwyr Cymraeg mewn tai bwyta, tafarnau ac ati.”

“Nid yw peiriant arian archfarchnad y **Co-operative** ym Mhentrebach, Merthyr Tudful yn ddwyieithog.”

“Siop leol yn Nolgellau yn **gwrthod siec** wedi ei hysgrifennu yn Gymraeg.”

“Siop leol yn **Nolgellau** yn gwrthod codi arwydd sy'n cynnwys y Gymraeg er bod llawer o siopau'r dref yn rhai Cymraeg neu ddwyieithog yn dweud nad oes gofyn am y fath arwyddion!!!”

“**Tesco** Porthmadog - Arwydd diystyr yn Nhesco Porthmadog. Mae'r siop wedi cael ei hadnewyddu dros y mis diwethaf a'r Gymraeg wedi'i hisraddio neu hepgor ar arwyddion. “

“Ymateb **Superdrug** i lythyr yn holi pam mai rhai arwyddion Cymraeg ac ambell aelod sy'n digwydd siarad Cymraeg yw'r unig ddarpariaeth Gymraeg sydd ganddynt: *“Can you clarify what ‘supply a bilingual service’ would mean. As you know we have bilingual signage and Welsh speakers in store.”*

“Dim Cymraeg mewn archfarchnad newydd sbon yn Llangefni. Mae **Iceland** yn agor siop newydd Llangefni. Does na ddim un gair o Gymraeg ar unrhyw arwydd neu hysbys yno. Dwi newydd bigo allan amser cinio yma a ces i gyfle i gael gair gydag un o'r rheolwyr - wnaeth gadarnhau doedd dim bwriad i ddefnyddio Cymraeg ar arwyddion yn y siop. Mae pencadlys cwmni Iceland yng Nglannau Dyfrdwy, Sir y Fflint. Dwi wedi eu ffonio i gwyno a phwyntio allan bod cwmnïau o ymhell tu hwnt i Gymru yn defnyddio'r Gymraeg a does dim esgus iddyn nhw beidio. Hefyd mae eu siop newydd ar safle yr hen Co-op ac roedd llwyth o Gymraeg i'w gweld yno. Ces i wrandawriad cwrtais ond dim ymateb arall.”

“Mae gen i enghraifft o diffyg parch at yr iaith Gymraeg. Mewn archfarnad lleol mae ganddynt dil lle rwyt ti yn gwneud popeth dy hun hefo'r opsiwn i'w wneud yn y Gymraeg. Nes **i bwysu'r botwm Cymraeg** er mwyn cael gwasanaeth Cymraeg. Fel oeddwn yn sganio yr eitemau fy hun fe oedd problem hefo'r till a dyma aelod o staff yr archfarchnad yn dod ata i. Mi ofynnodd i mi yn Saesneg beth oedd yn bod a dyma finnau yn ateb bod neges ar y sgrin yn esbonio be oedd. Yr ateb gefais ganddo oedd “Oh God, you've pushed the bloody welsh button! I can't help you cos I don't speak bloody welsh”! Mi aeth yn goblyn o ffrae rhwng fi a'r dyn ‘ma, pan ddaeth y rheolwr ata i a gofyn be oedd, nes i esbonio beth oedd wedi digwydd a dweud wrthynt bod chwara teg iddynt rhoi yr opsiwn i mi wneud fy siopa yn Gymraeg ond be di'r point os nad yw'r person sy'n rheoli'r tiliau yma ar y diwrnod yn dallt dim ar yr iaith.”

*Oh God,
you've
pushed
the bloody
Welsh
button!*

“Dyw peiriannau twll yn y wal **Tesco** chwaith ddim yn cynnig gwasanaeth yn y Gymraeg, er bod eu peiriannau talu yn y siop yn siarad Cymraeg!!”

“Dwi ddim yn hapus gyda'r gwasanaeth Cymraeg yr wyf yn ei dderbyn gan gwmnïau preifat yng Nghymru. Heblaw am wasanaeth arwynebol achlysurol yn Gymraeg gwasanaeth Saesneg yn unig a gynigir gan y mwyafrif o gwmnïau preifat yng Nghymru. Mae'n wir i ddweud bod rhywfaint o gwmnïau preifat yn cynnig rhywfaint o wasanaeth Cymraeg ond tocenistaidd yw'r ddarpariaeth yma'n unig. Nid yw'r canlynol yn cynnig gwasanaeth Cymraeg boddhaol - **Tesco, Co-op, Virgin One Account, HSBC, Pizza Hut, WH Smiths, Boots, Dorothy Perkins, Monsoon, New Look, Next, Clarks, Body Shop, Orange, Argos, Lloyds Pharmacy.** “

“Agorodd siop **Boots** newydd yn Llandysul - tref lle y mae 70% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg yn ol sensws 2001 ac heblaw am un neu ddau arwydd parhaol dwyieithog mae'r mwyafrif o arwyddion yn uniaith Saesneg.”

“Ar y cyfan nid wy’n hapus gyda’r gwasanaeth Cymraeg yr wyf yn derbyn gan fusnesau yng Nghymru. Mae nifer yn gwneud ymdrech, fodd bynnag ymdrech arwynebol ydyw ar y cyfan.

- **ASDA** - Tra darperir arwyddion dwyieithog trwy’r siop (cangen Leckwith Rd, Caerdydd) a hysbysebion dwyieithog ar fyrddau hysbysebu’n yr ardal, gwasanaeth uniaith Saesneg a geir bob tro. Mae arwyddion dros dro (ee cynigion arbennig ar gyfer achlysuron megis y Nadolig, y Pasg, Sul y Mamau ayb) fwy na heb yn uniaith Saesneg. Mae’r sticeri pris (ar y silff), cyhoeddiadau dros yr uchelseinydd, y system til hunan-wasanaeth, sgriniau argraffu lluniau oll yn Saesneg. Hyd y gwn i does dim siaradwyr Cymraeg yn gweithio’n y gangen.

- **Tesco** - profiad ddigon tebyg i ASDA. Arwyddion dwyieithog o fewn y siop; tiliau hunan-wasanaeth dwyieithog, gyda’r mwyafrif o staff yn ei ddefnyddio i roi ad-daliad ayb yn ddigon ddi-ffwdan, (ac eithrio un profiad lle tybiodd aelod o staff fy mod wedi dewis yr opsiwn Cymraeg trwy ddamwain - a siaradwr Cymraeg oedd hwn!). Dim ond yng nghanen Rhodfa’r Gorllewin rwyf wedi gweld aelod o staff sy’n gwisgo bathodyn yn nodi ei fod yn medru siarad Cymraeg.

- **Greggs** (the bakers) - er i’r cwmni redeg ymgyrch hyrwyddo ddwyieithog beth amser yn ôl, nid oes dim arwyddion Cymraeg tu fewn i’r siop nac ar unrhyw becynnau.

- **Marks & Spencer** - darperir tiliau hunan-wasanaeth gyda meddalwedd Cymraeg. Mae aelodau o staff yn gwisgo bathodynau i nodi eu bod nhw’n siarad Cymraeg. Serch hynny nid oes gwasanaeth Cymraeg ar gael bob amser (mae’n dibynnu a oes aelod o staff sy’n siarad Cymraeg ar ddyletswydd).”

“Nid wyf yn ymwybodol o’r un aelod o staff sy’n siarad Cymraeg yn ‘**Iceland**’ yn Yr Wyddgrug. Mae eu holl gwaith papur hefyd yn uniaith Saesneg.”

“Er bod nifer fechan o staff cyflogedig yn siarad Cymraeg yn **Tescos** yn yr Wyddgrug, nid ydynt ar gael i ddelio gyda cwsmeriaid ac mae rhaid gofyn o hyd. Mae eu gohebiaeth ar bapur yn uniaith Saesneg ac mae pob cyhoeddiad yn y siop yn cael ei ddatgan yn uniaith Saesneg o hyd.

“Nid wyf yn ymwybodol o’r un aelod o staff sy’n siarad Cymraeg yn ‘**Homebase**’ yn Yr Wyddgrug. Mae eu cyhoeddiadau hwythau a’u holl waith papur yn uniaith Saesneg.”

“**Boots** - llai o staff yn siarad Cymraeg yng nghanen Aberystwyth rwan nag a fu ychydig flynyddoedd yn ôl, ers i'r gyn-reolwraig ymddeol.”

“Dwi ddim yn hapus efo nifer o gwmnïau preifat yng nghydestun yr iaith Gymraeg e.e. **Asda** a **WH Smiths**. Wrecsam. Dwi ddim yn hapus efo eu hagwedd nhw pan dwi wedi gofyn pam dydyn nhw ddim yn darparu arwyddion Cymraeg.”

“Mae siop fwyd **Morrisons** yn ofnadwy yma yn ardal Caernarfon a Bangor . Ychydig iawn o arwyddion Cymraeg sydd ar gael ac ychydig iawn o staff Cymraeg hefyd sydd ar gael yn y siopau mawr lleol. “

“**Tesco** - Peiriannau hunan ddewis ar gael yn Gymraeg. Dim arwyddion dros dro, gwasanaeth llafar, nac i gwsmeriaid ar lafar/bwrdd bwletin/posteri.”

“**Marks & Spencer** - Dim arwyddion dros dro, staff, gwefan, gwasanaeth ffôn.

“**House of Fraser** - Dim gwasanaeth Cymraeg o unrhyw fath.”

“.... siop [**Marks & Spencer**] arall ym Mharc Manwerthu Prifddinas Caerdydd yn Ffordd Lecwydd ... Es i yno heddiw i weld faint o Gymraeg a welwn ac a glywn. Gan ei bod yn siop newydd, dyma gyfle euraidd i gynllunio siop ddwyieithog o'r cychwyn heb orfod disodli hen arwyddion a rhoi rhai newydd i fyny, ond gwaetha'r modd, prin iawn yw'r Gymraeg yn y siop anferth newydd. Mewn gwirionedd, gallwch chi gyfrif nifer yr arwyddion Cymraeg ar un llaw: Talwch yma; Toiledau; Archebu; Liff; Dim Ysmygu. 99.9% o'r arwyddion yn uniaith Saesneg. Ar ben hynny, roedd llais hyfryd o Ogledd Lloegr yn croesawu pawb i'r siop newydd dros y tanoi, ond dim byd yn Gymraeg wrth gwrs. Dyma pa fath o fantais mae M&S yn cymryd o'r cyfle i ddarparu yn Gymraeg yn wirfoddol.”

“**Accessory World Communications** Caerdydd – Cyhuddwyd cwsmer o fod yn anghwrtais wrth siarad Cymraeg gyda'i ferch wrth y cownter.”

“Rwy'n byw ar bwys **Caerfyrddin**, a ... Saesneg yw'r iaith yn unig sydd i'w weld ar bob stryd fawr. Y mae'r siopau stryd fawr a'u gwasanaeth i gyd yn uniaith Saesneg. Pan yn prynu dillad, anrhegion, cardiau, stwff chwaraeon,

cyfrifiaduron, ffonau symudol, esgidiau, colur, trin gwallt, stwff i'r swyddfa, bwyd ayb ayb mae'r holl arwyddion yn Saesneg. Mae'r sticeri ar y ffenestri yn uniaith Saesneg; mae'r arwyddion sy'n hongian o'r toeon yn Saesneg (weithiau ceir y Gymraeg mewn ambell i siop); mae'r arwyddion uwchben y gwahanol eitemau yn Saesneg; mae'r holl becynnu yn uniaith Saesneg; mae'r bathodynau / sticeri yn Saesneg ... Pan yn mynd i'r banc neu'r swyddfa bost, cynigir llwyth o waith papur i mi yn uniaith Saesneg, a rhaid i fi ofyn am y Gymraeg, a rhaid iddyn nhw fynd i'r selar (neu ble bynnag) i nol y cynnyrch Cymraeg, rhaid i bobol aros tan mod i'n cael y stwff yn Gymraeg, ac rwy'n teimlo fel niwsans."

Astudiaeth Achos: Undeb Rygbi Cymru

Yn 2005, fe gyhoeddodd Undeb Rygbi Cymru y bydden nhw'n defnyddio mwy o Gymraeg yn eu 'busnes' a datblygu cynllun iaith Gymraeg. Gan ddweud: "*Mae'r Undeb yn chwilio am ffyrdd i ymgorffori defnydd o'r iaith Gymraeg yn ei waith, a hynny yn enwedig drwy lunio fersiwn Gymraeg o'r wefan*". Yn 2008, fe ddywedon nhw: "*y byddwn ailwampio deunydd statig gwefan URC... Yn fuan bydd gwybodaeth ag ystadegau ar gael yn ddwyieithog i unrhywun â diddordeb mewn rygbi Cymru*." Heddiw, nid oes gair o Gymraeg ar wefan a derbyniodd grwp Hawl i'r Gymraeg y Gymdeithas gwynion am y baneri uniaith Saesneg sydd bellach yn ymddangos ar y cae yn ystod gemau rhyngwladol. Er gwaethaf hyn, fe lansiwyd strategaeth iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru yng nghanolfan hyfforddiant Undeb Rygbi Cymru. Ym mis Mai eleni, fe gwrddodd aelodau'r grwp â swyddogion URC yn pwysleisio pwysigrwydd effaith defnydd y Gymraeg gan yr Undeb ar bobl ar draws Cymru ac ar bobl ifanc yn enwedig. Nid oedd yr Undeb yn gallu rhoi dyddiad pendant erbyn pryd y byddai'r wefan Gymraeg ar gael.



Beth allaf i wneud?

Ymunu gyda'r ymgyrch ar **facebook - WRU: Ble mae'r Gymraeg?**

E-bostia i nodi dy gwyn: info@wru.co.uk

Gwasanaethau Cyhoeddus

Iechyd



“**Peiriant cofrestru** yn yr adeilad newydd yn Saesneg yn unig.
Meddygfa Padarn, Aberystwyth”



“Roedd gŵr wedi hebrwng ffrind i **Ysbyty Llandochau** a siaradai'r ddau Gymraeg efo'i gilydd. Cawsant gerydd gan Sister XXXX oedd yn gofalu amdanynt. Ei geiriau oedd: “If a member of my Phillipino staff spoke their language I would tell them off because of their ignorance and I don't expect the same ignorance from you.”



“Dim ond gwasanaeth Google Translate sydd ar gael yn y Gymraeg ar wefan y **Gwasanaeth Iechyd Gwladol.**”



“Pan es at y **deintydd yn Aberystwyth** ddiwethaf, gofynnwyd imi lofnodi ffurflenni cyn cael triniaeth. Gofynnais am rai Cymraeg neu ddwyieithog a dywedwyd wrthyf nad oes dim, eu bod wedi cael eraill yn holi ond nad ydynt i'w cael o gwbl. Tynnais sylw Bwrdd yr Iaith at hyn a dywedwyd y byddent yn ymchwilio a bod ffurflenni i fod ar gael. Rwyf yn amau'n fawr, er hynny, a gaf un pan af at y deintydd eto.”



“Rhan o lythyr wedi ei ddanfôn at brif **weithredwr ysbyty Gwynedd**

Annwyl Syr/Madam,

Mae'n ddrwg gen i orfod ysgrifennu atoch gyda chŵyn.

Ddoe, euthum i fewn i Uned Endosgopi Ysbyty Gwynedd am archwiliad. Roeddwn wedi darllen y llawlyfr yn ofalus cyn mynd i mewn ac wedi arwyddo fy nghaniatâd ar y dudalen Gymraeg. Wedi i mi fynd i mewn i'r ystafell driniaeth, cefais fy nghyfarch yn garedig iawn gan y llawfeddyg XXXX ond gofynnodd i mi a fuaswn yn fodlon arwyddo y darn Saesneg yn ogystal â darn Cymraeg. Pan ofynnais “Pam?”, eglurodd un arall oedd yn yr ystafell, gŵr ifanc barfog na chefais mo'i enw, fod hyn am nad oes

dilysrwydd cyfreithiol i'r iaith Gymraeg. Eglurhad XXXX's oedd am nad oedd yn deall yr iaith Gymraeg, a nododd ei fod wedi arwyddo y rhan Gymraeg. Doeddwn i ddim yn hapus o gwbl am hyn a gofynnais am gael fy ngŵr yn yr ystafell. Am nad aeth unrhyw un i'w nôl, gwnes hynny fy hun. Yn gwbl groes i'm hewyllys, arwyddais y darn yn Saesneg yn ogystal ag yn Gymraeg, onide yr awgrym oedd ymhlyg yn ymarweddiad y rhai oedd yn bresennol oedd na fyddwn yn derbyn yr archwiliad. Carwn wneud yn gwbl glir nad oes gen i gŵyn o gwbl am y gofal meddygol a dderbyniais gan bawb a fu'n ymwneud â mi ond mae sawl peth yn fy mhoeni am yr hyn ddigwyddodd.

Ar wefan GIG Gogledd Orllewin Cymru, nodwch:

"Mae Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru wedi mabwysiadu'r egwyddor, wrth wneud ei gwaith cyhoeddus, y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal."

Ymddengys, serch eich bod wedi mabwysiadu'r egwyddor hon, nad yw yn cael ei rhoi ar waith gennych. Yn amlwg, yn yr ystafell driniaeth yr Uned Endosgopi ar 14eg Mawrth 2009, doedd y Gymraeg a'r Saesneg ddim yn gyfartal. Achosodd hyn boen a phryder i mi, ac roeddwn yn ddigon nerfus yn barod wrth feddwl am y driniaeth oedd o'm blaen. Dydw i ddim yn credu mai hyn yw "gofalu" am gleifion. Carwn dderbyn ymddiheuriad diamod, llawn am yr hyn ddigwyddodd i mi a sicrwydd na fydd neb arall yn gorfod dioddef yr hyn y bu'n rhaid i mi ei ddioddef, a chael gwrthod eu llofnod yn Gymraeg.

Nodwch hefyd ar eich gwefan: Mae Cymru'n genedl ddwyieithog. Oherwydd amrywiaeth ieithyddol y boblogaeth, mae'n bwysig fod gwasanaethau clinigol yn cael eu darparu yn y ddwy iaith. Roedd tri yn yr ystafell driniaeth, ond dim ond un o'r rheiny oedd yn siarad Cymraeg. O ystyried eich geiriau ar y wefan, a'r ffaith fod 76% o boblogaeth Gogledd Orllewin Cymru yn siarad Cymraeg, sut gellwch egluro fod dau allan o'r tri yn ddi-Gymraeg?

Onid 'gofalu am gleifion' yw sicrhau fod yn rai sy'n gweithio yn Ysbyty Gwynedd yn deall ac yn siarad iaith y cleifion sy'n mynychu Ysbyty Gwynedd? Edrychaf ymlaen at dderbyn eich sylwadau."

“... ar ôl treulio bron i wnos yn **Ysbyty Maelor Wrecsam** hefo un o'r plant bythefnos yn ôl, mae'r arwyddion Cymraeg yno yn aml yn wallus, mae llawer iawn o'r staff, er yn broffesiynol, yn gyndyn o ddweud gair yn Gymraeg - nos da i fy mhleintyn blwydd oed neu ta ta hyd yn oed ar ôl i rywun

ei ailadrodd droeon. Does dim diwylliant sy'n croesawu'r Gymraeg yno o gwbl nac un sy'n cymell gwneud i rywun deimlo'n gyffyrddus yn defnyddio eu hiaith."



"Diffyg **gwasanaeth ffôn** Cymraeg allan o oriau gwaith y feddygfa"



"Amhosibl bron cael gafael ar feddyg sy'n siarad Cymraeg yn fy meddygfa yn **Aberystwyth**. Ychydig iawn o ddoctoriaid sydd yn siarad Cymraeg."



"Yn anffodus rwyf wedi gorfod ffonio'r meddyg allan o oriau gwaith lawer o weithiau yn ystod y ddwy flynedd diwethaf a phob tro maent yn gofyn Cymraeg neu Saesneg a phob tro heb eithriad ar ôl dal am ychydig maent yn dweud fod y **linell Gymraeg yn brysur** a rhoi fi drwodd i'r linell gymorth Saesneg. Gan fy mod mewn argyfwng ar y pryd byddaf yn falch o gael siarad ag unrhyw un ond mae wedi fy nharo fod hyn yn digwydd bob tro."



"Mae **diffygion difrifol ym maes iechyd meddwl** - hyd yn oed yng Ngwynedd. Os ydych chi'n glaf yn ward iechyd meddwl ym Mangor, does dim modd cael gwasanaeth Cymraeg o gwbl gan feddyg sy'n seiciatrydd. Siaradais am hyn mewn cynhadledd o seiciatryddion ac roedd pobl yng Nghlwyd yn dychryn - yn meddwl fod y sefyllfa gymaint gwell yng Ngwynedd. Bu fy mam yn glaf yn Ysbyty Gwynedd am 3 wythnos cyn y Nadolig, a chafodd hi ddim gwasanaeth gan yr un meddyg Cymraeg yn ystod ei arhosiad. Sgwennais at yr Awdurdod a chael y ffigyrau swyddogol ddoe: **53% o nyrsus** Ysbyty Gwynedd yn ddwyieithog. **1% o feddygon** Ymddiriedolaeth Gogledd Orllewin Cymru sy'n ddwyieithog - er eu bod yn arddangos tystysgrifau Bwrdd yr Iaith yn falch ar y muriau. Bum am brawf sgrinio bron y mis dwythfa, a methu cael unrhyw wasanaeth Cymraeg. Pan gwynais, dywedwyd fod nyrsus Cymraeg efo cymwysterau yn brin. Oni bai eich bod yn gwneud cwyn ffurfiol, aiff y peth ddim ymhellach."



"Nid oes **yr un meddyg teulu** yn medru siarad Cymraeg yn y feddygfa deuluol."



"Mae'r gwasanaeth iechyd, yn fy mhrofiad i, yn darparu mwy o wybodaeth ysgrifenedig i gleifion yn Gymraeg ond mae hi'n gynyddol

anos cael gwasanaeth Cymraeg ar lafar. Anaml iawn y mae modd cael Cymry i ateb ymholiadau dros y ffôn yn **Ysbyty Glan Clwyd**, er enghraifft.”



“Rwy’n fydwraig gymunedol ac rwy’n gweithio yng Nghwm Gwendraeth uchaf. Cawsom wybod y byddwn yn rhoi ffurflenni grant newydd gan y Llywodraeth, ar gyfer Ebrill, i baratoi at ddyfodiad y babi. Cynrhaeddodd y grantiau iaith Saesneg y ward yn Glangwili diwedd Ionawr yn barod erbyn Ebrill. Gofynnais i reolwr y ward a oedd ffurflenni Cymraeg ar gael oherwydd mae dros hanner y merched rwy’n ymweld â nhw yn rhinwedd fy swydd fel bydwraig yng Nghwm Gwendraeth yn siarad Cymraeg.

Dywedodd nad oedd yn gwybod dim am y ffurflenni Cymraeg a dywedodd nad oedd angen ffurflenni. Darllenais y rhywle wedyn y gallen ofyn am ffurflenni Cymraeg ond yn byddant yn penderfynu a oes angen ffurflen Gymraeg yn ddibynnol ar faint bydd yn eu defnyddio.

Ffoniais linell ffôn yr **HM Revenue** Cymraeg ac fe ddargyfeirion fi i rywle arall. Ar ôl dargyfeirio fi eto, llwyddais i archebu 100 o ffurflenni Cymraeg er sioc y dyn arall ben arall y ffôn. Dywedodd y bydd hi’n cymryd 5 wythnos i’r ffurflenni fy nghyrraedd a fydd bythefnos ar ôl i’r dyddiad pan gaiff merched ddechrau gwneud cais am y grant. Byddaf yn sicrhau fod y ffurflenni’n cael eu defnyddio oherwydd bydda i’n rhoi ffurflen Gymraeg i bob merch sy’n siarad Cymraeg, sef dros hanner y merched yng Nghwm Gwendraeth.

Mae wedi fy nharo pa mor ddibynnol yw’r Gymraeg ar unigolion o fewn systemau sy’n mynnu fod pethau’n cael eu gwneud yn y Gymraeg oherwydd ni fyddai’r ysbyty wedi meddwl gwneud hyn eu hunain.”

Cyrff y Goron

“Mae fy mhartner a finne yn priodi ar dydd nos Calan eleni. Wrth wneud ymholiadau ynglŷn a’r proses cofrestru mae’n ymddangos na gallwn cofrestru’r priodas yn uniaith Gymraeg o dan rheoliadau y Swyddfa Gartref. Mi allwn ni gofrestru yn uniaith Saesneg neu yn dwyieithog ond nid yn uniaith Gymraeg. Wrth siarad gyda’r swyddfa cofrestru lleol mae’n ymddangos na fedrwn ni nodi ein bwriad i **briodi yn Gymraeg** (rhywbeth sydd rhaid wneud er mwyn cael yr hawl i briodi) gan nad oes swyddog gyda Cymraeg gyda nhw sydd yn gymwys i gofrestru hysbysebiadau priodas. Meddai’r prif swyddog cofrestru yn y swyddfa *‘it’s a pity but it’s so hard to get the staff. And of course there so few who want to do it in Welsh that it isn’t possible’*.

Mae gyda nhw rhywun rhan amser sydd yn gallu cofrestru’r briodas yn dwyieithog, os mae’r person hwnnw ar gael, os nad yw hi bydd rhaid wneud e trwy gyfrwng y Saesneg. Nodwn felly o dan y drefn sydd ohoni nad oes hawl gan siaradwyr Cymraeg cofrestru ei priodas trwy gyfrwng y Gymraeg ac hefyd nodaf ei fod lawr i fympwy y swyddfa leol a ydyn nhw’n gallu/ eisiau defnyddio’r Gymraeg wrth mynd trwy’r proses priodas.”

“**Cofrestru Priodasau Dwyieithog** - Does dim modd cofrestru priodas yn y Gymraeg, rhaid iddo fod yn Saesneg a Chymraeg. ‘Dwi’n derbyn bod rhaid defnyddio’r ddwy iaith, ond pam mae rhaid gosod y Saesneg cyntaf? Baswn i am rhoi’r blaenoriaeth i’r Gymraeg.”

“Fe ymgymrais gyda “**Gwasanaeth Jury**” am bythefnos yn mis Rhagfyr 2007. Roedd angen iddynt treulio amser i ddod o hyd i Feibl Cymraeg ac wedyn roedd rhaid aros i gael hyd i siaradwr Cymraeg i fod yn bresennol wrth i mi gymeryd y llw. Ar ôl y gwrandawriad fe ofynnais am offer cyfieithu, i mi a’r ddwy siaradwraig Cymraeg arall! **You can speak and understand English?** oedd yr ymateb!! (Llysoedd Ynadon Yr Wyddgrug).”

“**Cyllid a Thollau** - Mae cwsmeriaid yn cael eu trosglwyddo o ganolfannau galw lle mae siaradwyr Cymraeg i ganolfannau galw lle nad oes siaradwyr Cymraeg “





“Gwefan y Swyddfa Gartref - yr unig Gymraeg sydd i gael yw'r dudalen ynghylch ei Chynllun Iaith.”



“Doedd **Swyddfa Bost leol** ddim yn cadw ffurflenni adnewyddu pasport yn Gymraeg, bu raid galw yn ôl sawl gwaith cyn methu a gwneud cais am ffurflen Gymraeg ar y we. Wedi aros am bythefnos heb dderbyn ffurflen, wrth ddefnyddio llinell ffôn bu raid gadael rhif a disgwyl am alwad nôl yn Gymraeg. Er cael addewid am ffurflen Gymraeg daeth ffurflen Saesneg drwy'r post. Wrth ffonio'r llinell eto cafwyd yr ymateb y byddai raid ffonio nôl eto am wasanaeth Cymraeg.

Er bod gwefan y Gwasanaeth Hunaniaeth a Phasportau ar gael yn Gymraeg nid yw yn bosibl gwneud cais am adnewyddu pasport ar lein yn Gymraeg gan mai yn Saesneg yn unig mae'r ffurflen ar gael.”



“Rwyf i wedi cael profiad gwael yn **Swyddfa'r Post XXXX**. Bum yn ciwio yno er mwyn prynu stampiau, ac wedi cyrraedd y ddesg a gofyn yn Gymraeg dywedodd y ferch y tu ôl i'r ddesg wrthof nad oedd yn medru'r Gymraeg. Gofynnais am siaradwr Cymraeg. Daeth y rheolwraig ataf.

Dywedodd hi y gallwn ddod yn ôl am ddau o'r gloch ac y byddai rhywun a oedd yn medru siarad Cymraeg ar ddyletswydd bryd hynny. Roedd hi'n 10.30am ar y pryd. Dywedais wrthi nad oedd yn bosibl i mi aros a gadawais heb brynu stampiau. Ffoniais linell gwynion y Swyddfa Bost a siaradais â Chymro Cymraeg a oedd yn synnu nad oedd unrhyw un yn medru siarad Cymraeg yn y swyddfa bost yn XXXX.

Rhoddodd gyfeiriad yn yr Amwythig i mi wneud cwyn swydddogol. Cefais gydnabyddiaeth o dderbyn fy llythyr ac yna o fewn 10 diwrnod lythyr arall yn dweud dim ond eu bod yn gwneud eu gorau i sicrhau fod Cymry Cymraeg mewn swyddfeydd post mewn ardaloedd Cymraeg.

Rhoddais enw'r Reolwraig gan ofyn sut y penodwyd rhywun heb unrhyw ymwybyddiaeth o'n hiaith a'n diwylliant yn rhywle fel XXXX. Dim unrhyw ateb i hyn. Nid yw hyn yn ddigon da. Cafodd fy ngŵr brofiad tebyg ychydig fisoedd ynghynt. Gofyn am siaradwr Cymraeg ond neb ar gael. Fel rhywun sydd wedi ei geni a'i magu yn XXXX disgwyliaf gael gwasanaeth yn Gymraeg.”



“Derbyniais ffurflen RD312/CA3480 gan **Swyddfa Gyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyllid y Wlad** yn gofyn am fanylion gennyf i er mwyn i'm mab sydd bron yn 16 oed gael Cerdyn Rhif Yswiriant Gwladol. Mae'r ffurflen yn uniaith Saesneg ac nid oes sôn arni bod ffurflen Gymraeg ar gael.

Ffoniais swyddfa Cyllid y Wlad ym Mhorthmadog i holi am ffurflen Gymraeg. Trefnwyd i anfon un ataf. Yna, dywedodd y swyddog mai Cerdyn Rhif Yswiriant Gwladol Saesneg y byddai'r mab yn ei dderbyn a, phe dymunwn gael cerdyn Cymraeg, y byddai angen i ni anfon yr un Saesneg yn ôl i'r swyddfa ym Mhorthmadog a gofyn am un Cymraeg yn ei le. Rwy'n cofio cael yr un profiad gyda fy mab hynaf dair blynedd yn ôl, felly nid damwain yw hyn. Pa syndod bod cyrff fel hyn yn dweud nad oes galw am eu gwasanaethau Cymraeg?"

“...rydym wedi bod yn ceisio gohebu yn Gymraeg a **Swyddfa Cyllid a Thollau** ers i'n plentyn gael ei eni (6 mlynedd yn ol) ynglŷn â chredyd treth teulu. Ceir llythyr safonol bob blwyddyn (yr un geiriad) yn dweud nad ydynt eto wedi llwyddo i ganfod system all ymdopi efo gohebiaeth Gymraeg.”

“**Vehicle and Operator Service Authority**” yn stopio person i brofi diesel ei gar yn y Bala, pan ofynnodd y cwsmer am rywun i siarad Cymraeg cafodd yr ateb “No, and what does it matter anyway” gan dri swyddog o Abertawe.”

“**Adran Gwaith a Phensiwn** - Wrth ofyn am ffurflen yn y Gymraeg yn lle'r un uniaith Saesneg a ddaeth trwy'r post, atebodd y dyn ar ochr arall y ffôn “What difference does it make? You can fill it up in English”

“Pan bu fy Nhad farw es i **swyddfa gofrestru Bangor**. Roedd y person yno yn gwbl broffesiynol a chlên iawn, ond doedd o ddim yn siarad Cymraeg. Ar adegau fel hyn, pan fod teulu mewn galar ar ôl colli rhywun annwyl, credaf ei bod yn bwysig iawn fod popeth posibl yn cael ei wneud iddynt deimlo mor gartrefol â phosibl yn eu mamiaith mewn maes sy'n amlwg yn ddiethr iddynt.

Cefais y ffurflenni profiant drwy'r post, ac roeddent yn Gymraeg. Mae'n rhaid hefyd llenwi ffurflenni datganiad treth ar gyfer y sawl fu farw - IHT205 - ac anffodus nid oedd copi Cymraeg o hon.”

“Gan nad yw'r gwasanaeth cofrestru yn cynnig gwasanaeth ddwyieithog ym Mhenarth bu rhaid derbyn **Tystysgrif Geni yn uniaith Saesneg**”

“**Gwasanaethau Teitheb** - Nid oes modd cael cyfweliad am deitheb cyntaf yn y Gymraeg am nad yw'r Gymraeg yn cael ei chydnabod gan y Swyddfa Gartref.”

“Rwy’n gweithio i Undeb Amaethwyr Cymru fel Swyddog Gweithredol Sirol yn yr hen Sir Gaernarfon. Un rhwystredigaeth sydd yn peri gofid i fi ar hyn o bryd yw y ffaith nad yw **Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain** yn fodlon danfon mantolenni chwarterol yn y Gymraeg i geidwaid gwartheg y wlad. Maent yn eu danfon yn uniaith Saesneg, ond gydag atodiad sydd yn rhoi fersiwn Gymraeg “blank” iddynt.”

“Mae pob blaenor yn yr Eglwys Bresbyteraidd (a phob enwad arall am a wn i) wedi gorfod cael datgeliad **CRB** yn ddiweddar. Er bod y ffurflen gais ar gael yn y Gymraeg, nid yw’r datgeliad ei hun yn y Gymraeg nac hyd yn oed yn ddwyieithog. Anfonais fy natgeliad yn ôl i Lerpwl gan wrthod ei dderbyn yn Saesneg a chefais lythyr digon cwrtais gyda’r troad bron yn esbonio, yn Gymraeg, nad oedd modd cael datgeliad mewn unrhyw iaith ond Saesneg. Yn ôl y llythyr, mae’r CRB yn trafod ar hyn o bryd â Bwrdd yr Iaith i weld os oes modd cynhyrchu datgeliad dwyieithog, ond byddai hynny yn y dyfodol pell mae’n debyg. Dw i’n gwrthod derbyn fy natgeliad ac yn synnu bod cymaint o Gymry wedi derbyn y ddogfen yn Saesneg heb gwyno dim.”

“**Gwefan TAW - Ffars llwyr** yw gwefan “Gymraeg” gwasanath talu TAW ar lein. Esiaml berffaith o ‘wnaiff y tro’.

“Peth siomedig iawn a ddigwyddodd imi yn Ionawr oedd methu a chyflwyno fy manylion **treth drwy’r Gymraeg arlein**. Roedd modd gwneud y llynedd, ond eleni, mae’r Inland Revenue yn ailwneud eu gwefan, a doedd y fersiwn Gymraeg ddim ar gael.”

“Ddechrau mis Chwefror, cafodd ffenest fy ‘stafell ffrynt ei dorri gan pobl ifanc yn taflu peli eira a wedyn yn rhedeg i ffwrdd. Er galw’r **heddlu** wnaeth neb ddod y noson yna ond rhywun o’r enw XXXX yn gadael neges ar fy ffôn yn cynnig dod i’m gweld y bore wedyn. Anfonais Ebost yn ôl i ofyn am wasanaeth Gymraeg. Hyd yma does neb wedi cysylltu yn ôl!!”

“Rwy wedi cael gwasanaeth gwarthus yn ddiweddar gan y **Swyddfa Basportiau**. Rwy wedi gwneud cwyn swyddogol ynglŷn â’r peth ond nid ydw wedi derbyn unrhyw ymateb hyd yma.

Yn fras - fe fues i at fy Swyddfa Bost leol er mwyn gofyn am ffurflen Gymraeg i adnewyddu pasport. Doedd dim ar gael ac fe ddywedwyd y bydde rhai yn cael eu harchebu. Es i nol wythnos yn ddiweddarach - ond doedd dim

ar gael. Gofynnwyd i fi alw nôl ymhen wythnos arall - fe wnes i - ond doedd dim ar gael. Felly fe awgrymwyd wrthyf y dylwn ymweld â gwefan y Swyddfa Basport. Fe wnes i - a llenwi tudalen oedd i fod i anfon ffurflen Gymraeg ata i. Arhosais am bythefnos ond ni chyrraeddodd unrhyw beth. Fe alwes i linell Gymraeg y Swyddfa Basport - roedd rhaid gadael rhif a disgwyl am alwad nôl. Fe ges i alwad nôl ar ôl rhai oriau, ac fe esboniais fy mod i am iddyn nhw anfon ffurflen Gymraeg ata i. Wythnos yn ddiweddarach fe dderbyniais ffurflen Saesneg drwy'r post. Ffoniais i nôl eto - ac er i fi bwyso'r botwm am wasanaeth Cymraeg fe atebodd merch fy ngalwad yn Saesneg. Esboniais yn amyneddgar ac yn hollol gwrtais fy mod i am gynnal fy sgwrs yn Gymraeg - yr ateb oedd, dan led-chwerthin, *"I don't speak Welsh but I can help you."* Roedd ei hagwedd yn warthus, ac ar ôl i fi ofyn os oedd modd iddi fy nhrosglwyddo at rhywun oedd yn medru'r Gymraeg, dwedodd *"Oh no - you'll have to phone back - **better luck next time!**"*

“Dwi wedi gwneud cwyn gan fod fy mhrofiad yn dangos yn glir nad yw'r gwasanaeth a gynigir yn annog pobl i ddefnyddio ffurflenni Cymraeg. Ar ben hyn - y tro diwetha y bues i'n delio da'r **Swyddfa Basport** - nôl yn 2004 - ces i'r un fath o broblem gyda rhywun yn ateb e bost Cymraeg gyda'r geiriau *"Don't understand Welsh - please translate."* Ces i ymddiheuriad swyddogol 'da nhw bryd hynny - ond mae'n amlwg bod dim wedi gwella.”

“Fy mab, Robin, wedi cael cais am fynychu cyfweiliad yn Wrecsam yn dilyn gwneud cais am basport. Gofynnodd am gyfweiliad Cymraeg. Newidiwyd y dyddiad deirgwaith oherwydd problemau cael cyfieithydd. Cyrhaeddodd Wrecsam (o Gaernarfon - wedi gorfod cael amser rhydd o'r gwaith!) erbyn 10 y bore i gael gwybod na allai'r cyfieithydd fod yn bresennol tan 3 p.m. Eglurodd na allai aros hyd 3. Cafodd ddewis - dychwelyd ar ddiwrnod arall, neu gael cyfweiliad Saesneg. Oherwydd amgylchiadau, dewisodd gyfweiliad Saesneg. Gwnaeth y ddynes oedd yn cyfweld sylw fod ei Saesneg yn ardderchog (gan awgrymu nad oedd angen cyfieithydd arno). Anfonwyd cwyn swyddogol gennym i'r gwasanaeth. Cafodd mab i gymydog i ni hefyd brofiad tebyg wrth wneud cais am basport.”

“Wrth gael **fy nghludo i swyddfa'r heddlu ym Merthyr Tudful** roeddwn yn siarad yn anffurfiol yn y Saesneg gyda'r 2 heddw a'm harestiodd fi. Esboniais iddynt y baswn i am gyflawni unrhyw beth swyddogol yn yr orsaf trwy gyfrwng y Gymraeg. Gofynnais iddynt esbonio hwn i'r rhingyll ddesg yn yr orsaf. Fe wnaethon nhw hwn wrth i ni gyrraedd.

*"So you're
refusing
to speak
English are
you? Then I'm
arresting you
for wasting
police time"*

Ar ddeall nad oeddwn i am siarad Saesneg gwaeddodd y rhingyll arna i ‘*So you’re refusing to speak English are you? Then I’m arresting you for wasting police time.*

Wedi hwn derbynias i sawl rybudd gan nifer o heddweision gwahanol y basa'r proses yn cymryd llawer hirach gan fy mod eisiau gwneud pethau trwy'r Gymraeg.

Llwyddais i gofrestru mewn i'r gell trwy ddefnyddio gwasanaeth cyfathrebu *language line*. Ddaeth ddim cyhuddiad ychwanegol o ‘wastraffu amser yr Heddlu’ ond alla i ddim credu bod swyddog o fewn Heddlu De Cymru fodern yn gallu dweud y fath pethe a bwllo aelodau o'r cyhoedd mewn i siarad Saesneg. Roedd y sefyllfa yn un digon anodd heb gael fy nghamwahaniaethu yn erbyn am fy newis iaith.”



“Bu’n rhaid imi adnewyddu fy mhasbort y llynedd. Er bod gwefan y **Gwasanaeth Hunaniaeth a Phasbortau** ar gael yn Gymraeg www.ips.gov.uk/passport/welsh/apply-renewing.asp dyw hi ddim yn bosibl wneud cais am adnewyddu pasbort ar lein yn Gymraeg – dim ond yn Saesneg mae'r ffurflen ar gael. Allaf i ddim defnyddio fy ngrym fel “defnyddiwr” a siopa o gwmpas am wasanaeth Cymraeg achos dim ond drwy'r Gwasanaeth hwn y caf i wneud cais. Ar ben hynny, mae'r Gwasanaeth yn esbonio y cewch eich pasbort yn gynt drwy ddefnyddio gwasanaeth “Anfon a Gwirio” (check and send) Swyddfa'r Post, ond dim ond yn Saesneg mae'r gwasanaeth hwn ar gael. Dim ond drwy'r Saesneg mae'r gwasanaeth gwell ar gael.”



“Er i **heddlu Gogledd Cymru** cynnig linell ffôn Cymraeg, maent yn aml yn danfon siaradwr di-Gymraeg allan i ddelio gyda'r cwyn wedi hynny, er i mi ofyn am wasanaeth Cymraeg.”



“Roeddwn yn chwilio am ystadegau o'r enwau mwyaf poblogaidd yng Nghymru ar gyfer y cwmni rwy'n gweithio iddi. Des i ar draws y wefan - <http://www.statistics.gov.uk/> - sy'n cael ei redeg gan yr **ONS**, ond doedd dim fersiwn Gymraeg. Wnes i chwilio felly am ‘ONS Cymraeg’ a dod ar draws <http://www.ons.gov.uk/cymraeg> - sydd gyda ychydig iawn o wybodaeth Cymraeg mewn ffram Saesneg. Wnes i ffonio'r rhif cyswllt 0845 601 3034, ac ar ôl gwasgu ar opsiwn rhif 2 i siarad yn Gymraeg, cefais ddewis o 3 opsiwn. Os am ddanfon ebost pwyswch 1, os am adael neges pwyswch 2, i siarad gyda rhywun yn Saesneg pwyswch 3! Pa fath o wasanaeth Cymraeg yw hyn? Oes syndod mewn gwirionedd nad oedd niferoedd mawr yn defnyddio gwasanaethau sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg pan maent mor israddol?”

“Nid oes siaradwr Cymraeg ar gael o hyd wrth gownteri'r **Swyddfa Post** yn Yr Wyddgrug.”

“Hoffwn weld y **Swyddfa Post** yn cynnig ffurflenni Cymraeg yn hytrach na'r hen “O! ni ddim yn catw dim byd yn y Gymraeg”

“Wrth weithredu dros berthynas anabl daeth i'm sylw bod y rhain yn gyndyn IAWN i ddefnyddio'r iaith, mewn llythyron yn arbennig, er gwaethaf gofyn yn gyson:

1. **Swyddfa budd-dal (DWP) Bae Colwyn**

2. **Y Gwasanaeth Pensiwn, Abertawe**

Cyfyd problemau o hyd gyda chyrff cyhoeddus lle nad oes swyddfa yng Nghymru:

1. **Swyddfa'r Lwfans Anabledd** (Disability Living Allowance) yn Blackpool (hyd y gwn i, nid oes swyddfa yng Nghymru)

2. **Office of the Public Guardian** (rhaid gwneud cais i'r swyddfa hwn i gael caniatâd y llys i weithredu dros person anabl o ran materion ariannol a lles). Mae rhai ffurflenni a nodiadau ar gael yn Gymraeg ond nid oes gwasanaeth Cymraeg dros y ffôn na thrwy lythyr.

Mae angen sicrhau fod y Gymraeg yn rhan o'r broses uwchraddio a diweddarau arwyddion, hysbysrwydd ac ati; yn rhy aml uniaith Saesneg fydd y fersiynau newydd.”


“Wedi derbyn gohebiaeth gan **wasanaeth llysoedd y Gogledd**, yn gofyn i mi dalu dirwy. Yn syfrdanol mi oedd yr ohebiaeth yn uniaith Saesneg, gyda esgus tila yn nodi na all eu system gyfrifiadurol ymdopi â defnyddio'r Gymraeg. Dwi wedi gyrru'r llythyr yn ôl, gan nodi na fydda i hyd yn oed yn cysidro talu, tan i mi dderbyn gohebiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.”

“Dogfennau ar **wefan y Cynulliad yn uniaith Saesneg** e.e. ymatebion i bwyllgorau gan sefydliadau gyda pholisïau iaith fel Llywodraeth Cymru. Y Gweinidog Huw Lewis AC a sefydliadau eraill gyda pholisïau iaith yn cyflwyno dogfennau uniaith Saesneg BBC Cymru, yr Asiantaeth Ffilm ac S4C.”

Awdurdodau Lleol

Astudiaeth Achos - Cyngor Sir Merthyr Tudful

Nododd grŵp y Gymdeithas ym Merthyr fethiannau'r Cyngor Sirol gan gynnwys: gwefan newydd uniaith Saesneg (wedi blynyddoedd o drafod ac addo); dim darpariaeth gofal plant llawn amser cyfrwng Cymraeg; llu o enghreifftiau o ddeunydd argraffedig uniaith Saesneg (weithiau gyda rhif i ffonio am fersiwn Cymraeg); cais i gamarwain Bwrdd yr Iaith a'r cyhoedd trwy nodi'n swyddogol, ac yn groes i'r dystiolaeth, nad oedd unrhyw gwynion parthed y Gymraeg yn cael eu derbyn; gohebiaeth Saesneg yn parhau hyd yn oed ar ôl derbyn cwynion ac ymddiheuriadau; gwrthod mesur y galw am addysg Gymraeg yn groes i orchymyn y Llywodraeth; ar wahân i athrawon yr ysgolion Cymraeg dim ond un swydd (Swyddog Cydraddoldeb) oedd â'r Gymraeg yn angenrheidiol (neu hyd yn oed yn fanteisiol) o fewn y cyngor. Mewn cyfarfod gyda'r grŵp daeth hi'n amlwg nad oedd unrhyw ewylllys i newid y sefyllfa ac arweiniodd hwn at ymchwiliad gan Bwrdd yr Iaith. Dal yn aros am yr adroddiad.



“**Canolfan Gwaith Llanelli** – Er bod unigolyn wedi llenwi ffurflen ar y we ac wedi nodi eu dewis i dderbyn gohebiaeth yn y Gymraeg mae'r ganolfan wedi anwybyddu hynny. Bu raid i'r unigolyn newid apwyntiad er mwyn cael siarad â rhywun yn Gymraeg ac nid oedd y ffurflenni pwrpasol ar gael yn Gymraeg. O chwe ymweliad dim ond dwywaith mae wedi bod yn bosibl siarad gyda rhywun yn Gymraeg.”

“**Celtic Community Leisure** sydd yn gyfrifol am bob canolfan hamdden yn sir Castell Nedd a Phort Talbot. Mae eu gwefan yn uniaith Saesneg a nid ydynt yn darparu unrhyw weithgareddau yn Gymraeg.”

“Mae unrhyw ffurflenni gan **Gyngor Sir Benfro** sy'n cael eu anfon at staff ar gyfer defnydd mewnol yn cael eu darparu yn Saesneg yn unig. Does dim modd cael fersiwn Gymraeg hyd yn oed ar gais.”

“Ni lwyddodd **Pwll Nofio yn y Fflint** benodi siaradwr Cymraeg i ddysgu nofio i'r plant trwy gyfrwng y Gymraeg.”

“Mae cwmni **Excel** yn gyfrifol am redeg maes parcio'r Cyngor yng Nglyn Ebwy. Mae tocynnau parcio yn cael eu darparu yn uniaith Saesneg a'r cwmni yn gwrthod cydymffurfio gyda pholisi iaith y Cyngor Sir.”

“**Cyngor Sir Gaerfyrddin** - Gwasanaeth annigonol iawn yn y Gymraeg, pobl ar y ffonau yn uniaith Saesneg, arwyddion ffyrdd yn ymddangos yn uniaith Saesneg ar brydiau, gwefan nad yw'n gyfan gwbl dwyieithog. Prosiectau ieuencid wedi'i arwain gan bobl uniaith Saesneg lle mae dros 70% o holl ieuencid y Sir yn siarad Cymraeg. Hollol warthus”

“Gwasanaeth ffôn **Cyngor Dinas Abertawe**: Doedd y sawl a atebodd y ffôn ddim yn siarad Cymraeg a ches i ddim cynnig siarad gydag unrhyw un arall. Wedi cael fy nhrosglwyddo i'r adran berthnasol roedd y neges wedi'i recordio sydd yn dweud fod y llinell yn brysur yn uniaith Saesneg.”

“Gwefan **Cyngor Casnewydd** - Darpariaeth Gymraeg yn drychinebus, a dim posibilrwydd o lenwi'r holiadur i wneud sylw am y wefan yn Gymraeg hyd yn oed.”

“Tudalen a diweddariadau Gweplyfr **Cyngor Caerffili** ddim yn ddwyieithog, rhwystrwyd achwynyddion rhag postio ar dudalen”

“Does dim darpariaeth Cymraeg ar wefan **Cyngor Penybont**, er i fi a sawl un arall o'r bwrdeistref gwyno. Mae'r cyngor yn mynnu rhoi'r Saesneg uwchben y Gymraeg, er ei fod yn rhatach rhoi'r Cymraeg yn cyntaf ee.” Alfred Street. Stryd Alfred” ar hyn o bryd, “Stryd Alfred Street”. Mae'r cyngor newydd rhoi arwyddion dwyieithog newydd, lle 'roedd yr enwau yn uniaith Gymraeg. Mae'r heol sy'n rhedeg o safle ysbyty Maesteg i bentref Nantyllyn, bob tro wedi cael ei adnabod fel “Heol Ty Gwyn” oherwydd fferm Ty Gwyn. Mae'r cyngor wedi newid yr arwydd uniaith Cymraeg sydd wedi bodoli am blyneddau, ac wedi rhoi arwydd newydd o “Heol Ty Gwyn. White House Road”. Canolbwyntio ar ddarparu gwefan Gymraeg dyle'r cyngor, yn hytrach na rhoi arwyddion Saesneg mae neb wedi gofyn amdanynt.”

“Llenyddiaeth i staff **Rhondda Cynon Taf** yn uniaith Saesneg. Arfer bod yn yn ddwyieithog pan roedd Plaid Cymru mewn grym yno.”

“Nid oes siaradwyr Cymraeg ar gael mewn llyfrgelloedd lleol, megis **Bwcle, Mynydd Isa, Cei Connah**.”

“Mae pob gweithgaredd y **Cyngor Dref yr Wyddgrug** yn cael ei gynnal trwy gyfrwng y Saesneg, gan gynnwys ei gohebiaeth i'r cyhoedd mewn ffeiriau a gwyliâu crefft lleol.”

“Tudalen Facebook **Cyngor Caerffili** yn uniaith Saesneg - daeth i'm sylw fy mod wedi cael fy rhwystro rhag postio, gadael sylwadau, a chwyno rhag diffyg presenoldeb y Gymraeg”

Addysg



“Fe wnes i gais am le ym **mhrifysgol Aberystwyth**. Anfonodd y Coleg, yn enw'r Prif swyddog Ricriwtio, bamffled uniaith Saesneg ataf yn fy annog i wneud Aber yn ddewis terfynol. Fe wnes i gwyno i'r Pennaeth 6ed Dosbarth yn Ysgol Dyffryn Teifi ac wrth y Coleg. Yn ôl y Brifysgol camgymeriad oedd hyn, a'u bod yn arfer anfon yn Gymraeg at bawb sy'n gofyn am ohebiaeth Gymraeg, ond pam fod rhaid optio i mewn i wasanaeth Cymraeg?”



“Wedi ffonio **Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru** yn ddiweddar doedd neb ar gael i drafod yn Gymraeg ond roedd modd i fi drafod yn Saesneg.”



“Pan ffoniais **Cyd Bwyllgor Addysg Cymru** ar ôl y bore da cychwynnol, doedd dim modd parhau â'r sgwrs yn Gymraeg.”



“Hysbysebion am swyddi Addysg gan **Gyngor Penybont** yn uniaith Saesneg.”



“**Prifysgol Glyndwr** - Dim gwasanaeth Cymraeg ar gael yn y dderbynfa.”



“Roeddwn yn mynychu cyfarfod hyfforddi cenedlaethol ar gyfer aseswr **Cynllun Ysgolion Iach Cymru** yr wythnos diwethaf ac ar ôl derbyn copi Saesneg o'r agenda o flaen llaw, gofynais am y fersiwn Gymraeg ond doedd dim ar gael! Doedd dim gair o Gymraeg yn y cyfarfod, ble'r oedd dros hanner yr aseswyr yn siarad Cymraeg, a dim ond yn Saesneg yr oedd y ffurflen werthuso ar gael ar y diwedd.”

Sefydliadau a Chanolfannau Cyhoeddus



“**Canolfan y Dechnoleg Amgen**, Machynlleth – Mae gwefan y sefydliad yn uniaith Saesneg.”



“**Amgueddfa Werin Sain Ffagan** - Ar ddydd Gwyl Ddewi eleni, doedd neb y tu ôl i'r cownter yn y ffreutur/ lolfa goffi wrth y brif fynediad yn medru'r Gymraeg.”



“Diffyg gwasanaeth Gymraeg yng **Nghanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth**”



“**Canolfan Awyr Agored Storey Arms**. Mae'n ganolfan wedi ei phartneri gyda Chyngor Caerdydd. Ar sawl achlysur mae rhai o arweinwyr/hyfforddwyr y ganolfan wedi dangos diffyg parch eithafol tuag at y Gymraeg a'i siaradwyr. I'r fath raddau i un o'r hyfforddwyr gael ei ddiswyddo dros dro am iddo ymosod ar blentyn (ar y pryd) am siarad Cymraeg. Ar ôl ymchwiliad anheg o'i blaid ef aeth yn ôl i weithio yno a gwaharddwyd y plentyn rhag dychwelyd yno.”



“**Parc Antur Gelli Gyffwrdd, Felinheli** - Diffyg defnydd o'r Gymraeg yn weledol yn y parc antur, gan gynnwys arwyddion a bwydlenni, er bod y rhan fwyaf sy'n gweithio yno'n Gymry Cymraeg ifanc. Does dim Cymraeg i'w ganfod ar daflenni sy'n hysbysebu'r parc ychwaith, heblaw am y gair “Croeso”, a dim sôn am daflenni dwyieithog yn ogystal - ac maen nhw wedi ennill gwobr am yr “Atyniad Teuluol Gorau yng Ngogledd Cymru”. Prin yw'r Gymraeg ar eu gwefan, hefyd.”



“Ymaelodais efo **CADW** yn ddiweddar, a mynd i Gastell Cricieth i weld Owain Glyndŵr. Roedd yr actor hwnnw a phob aelod arall yn uniaith Saesneg i gyd yn cael eu talu yn dda gan arian y Cynulliad bob haf. Sut mae egluro i blant fod Glyndwr yn siarad Saesneg? Rhoddwyd y fersiwn Saesneg o'r ffilm ar Gerallt Gymro (!) ymlaen ...*so that every one can understand*’.

Y Cyfryngau



“Y BBC ar y cyd â **National Theatre Wales** yn noddi gwobr o £10,000 a dwy wobwr £1000 ar gyfer cystadleuaeth sgriptiau, yn Saesneg yn unig.”



“Gwefan cwmni teledu **Tinopolis** yn uniaith Saesneg.”




“Mae cwmni ‘**PRS for Music**’ yn mynd ar ôl nifer o gwmnïau ar hyn o bryd i gasglu arian trwydded er mwyn cael chwarae cerddoriaeth Cymraeg mewn mannau cyhoeddus. Nid ydynt yn cynnig unrhyw ddarpariaeth yn y Gymraeg.”



“Mapiau Microsoft - mae enwau lleoedd wedi eu Seisnigeiddio ee **Nevin, Bottwnog, Caernarvon**”



“Ron i yn y **Swyddfa Cyfrifydd** bore ma, a hwythau’n dweud na fydd y drefn Gymreig yn para yn hir. Mae’n iawn tra bydd y ffurflenni yn cael eu defnyddio, ond wedyn - bydd pethau’n dirywio. Holais beth oedd y broblem, a dywedodd mai’r *software* sy’n Saesneg.”




Sector Gwirfoddol

“Wrth ddelio gyda chyrff sydd yn derbyn nawdd cyhoeddus megis **PAVS** (Pembrokeshire Association of Voluntary Services), **PLANED** a nifer o elusennau y bûm yn gwneud gwaith gwirfoddol iddynt yn **Sir Benfro** rwyf wedi gweld nad oes llawer o Gymraeg ar eu cyfyl. Yr argraff a roddir a’r hyn a ddywedir yw bod y gwaith y maent yn ei wneud yn rhy bwysig, neu’n rhy anodd, iddynt wneud unrhyw ddarpariaeth na dangos unrhyw barch at y Gymraeg. Fe ymddengys nad ydynt yn ymwybodol o fodolaeth y Gymraeg.”

“**Cymunedau'n Gyntaf Ystradgynlais** – Mae cylchlythyr yn cael ei ddosbarthu yn uniaith Saesneg er gwaetha’r ffaith bod nhw’n derbyn arian cyhoeddus.”

Bum yn aros yn **Neuadd Bodysgallen** ger Llandudno dros y penwythnos, sydd bellach wedi ei brynu gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Synais nad oedd unrhyw Gymraeg ar gyfyl y llyfryn gwybodaeth nac ychwaith ar fwydlenni’r gwesty. Tasai hwn yn westy preifat, efallai y byddwn wedi ‘derbyn’ y peth, ond siawns bod gan yr Ymddiriedolaeth - ac yntau’n gorff cyhoeddus - bolisi iaith yn ei le?”

Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy - Danfon newyddlen allan yn uniaith Saesneg”



Astudiaeth Achos: Defnydd y Gymraeg yn y Gweithle

“Fe gysylltodd person, sydd yn gweithio i gorff cyhoeddus yn y canolbarth â'r Gymdeithas oherwydd fod cyflogwr yn **gwrthod gadaeliddo/i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle**. Oherwydd natur yr achos, ni allwn ryddhau enw'r person na rhagor o fanylion.”

“Rwy'n gweithio mewn swyddfa gyda thîm o dri aelod o staff ac yn anffodus dydw i ddim yn cael llawer o gyfle i siarad fy iaith heblaw gydag un person. Heddiw dywedodd fy rheolwr (sydd ddim yn siarad Cymraeg) **nad oedd hi yn hoffi i fi siarad Cymraeg** oherwydd ei bod hi yn methu ddeall am beth rwy'n sgwrsio er mai sgwrsio gyda chwsmer dros y ffôn oeddwn i.”

Beth allaf i wneud?

Cwyno at Gomisiynydd y Gymraeg a fydd yn trin eich cwynion yn gyfrinachol, ebostiwnch **post@comisiynyddygyymraeg.org**



Picedi Thomas Cook, Bangor ar ôl i'r cwmni atal ei staff rhag siarad Cymraeg